# Pecyn Swydd

## Swyddog Polisi

Diolch ichi am eich ymholiad ynghylch y swydd uchod.

Mae'r Pecyn Swydd hwn yn cynnwys:

- Ffurflen gais
- Swydd-ddisgrifiad a manyleb person
- Ffurflen monitro cyfle cyfartal.

Mae'n bwysig ichi ddarllen gofynion y fanyleb person a bod y wybodaeth yr ydych yn ei gyflwyno yn eich cais yn disgrifio sut yr ydych yn ateb y gofynion hyn – bydd y broses tynnu rhestr fer yn defnyddio criteria'r fanyleb person i benderfynu pwy i'w gwahodd am gyfweliad.

Defnyddiwch y dull Sefyllfa, Tasg, Gweithredu, Canlyniad (STAR neu Situation, Task, Action, Result) i ddarparu **enghreifftiau** i ddangos tystiolaeth o'r profiad a'r sgiliau sydd gennych a chofiwch ddweud wrthym sut y bydd eich rhinweddau personol yn golygu eich bod yn berson y byddwn ei eisiau ar ein tîm.

Mae Chwarae Cymru yn ymfalchïo yn y ffaith ei fod yn defnyddio tôn llais gwreiddiol wrth greu deunyddiau ysgrifenedig. Hoffem glywed eich llais chithau. Rydym felly'n gofyn i chi ymatal rhag defnyddio offer deallusrwydd artiffisial (AI) i gwblhau eich cais. Nodwch y byddwn yn defnyddio offer gwirio AI i sicrhau nad yw ymgeiswyr wedi defnyddio AI.

Rydym yn cadw'r hawl i gau'r swydd i geisiadau cyn y dyddiad cau a hysbysebwyd.

Dylid dychwelyd y ffurflen gais a'r ffurflen cyfle cyfartal, wedi eu cwblhau, at: swyddi@chwarae.cymru

**Dyddiad cau: 9:00am 14 Medi 2026**

**Cynhelir cyfweliadau ar 22 Medi 2026, a byddant hefyd yn cynnwys tasg i asesu addasrwydd ymgeiswyr ar gyfer y rôl. Darperir mwy o wybodaeth gyda'r gwahoddiad i ddod am gyfweliad.**

**Dyddiad dechrau: 30 Tachwedd 2026**

Cynhelir y cyfweliadau wyneb yn wyneb yn Nhŷ Parc, Heol y Brodyr Llwydion, Caerdydd CF10 3AF.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais cyflawn.

Os hoffech sgwrs anffurfiol am y swydd hon, galwch 02920 486050 a gofyn i siarad gyda Danielle.

## Am Chwarae Cymru

Chwarae Cymru yw'r elusen genedlaethol annibynnol dros chwarae plant yng Nghymru.

Rydym yn gweithio i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch angen a hawl plant ac arddegwyr i chwarae ac i hyrwyddo arfer da ar bob lefel o'r broses wneud penderfyniadau ac ym mhobman ble y gall plant chwarae. Rydym yn cynnig cyngor ac arweiniad i gefnogi pawb sydd â diddordeb mewn neu sy'n gyfrifol am ddarparu ar gyfer chwarae plant, fel y bydd Cymru un diwrnod yn wlad ble y byddwn yn cydnabod ac yn darparu'n dda ar gyfer anghenion chwarae pob plentyn.

**Gweledigaeth a chennad Chwarae Cymru**

**Gweledigaeth**: Dyfodol ble caiff chwarae ei werthfawrogi yng Nghymru am ei fod yn hanfodol i blentyndod iach a hapus. Gwlad ble mae plant yn rhydd i archwilio, darganfod, datblygu a thyfu drwy chwarae.

**Cennad:** Ymgyrchu dros Gymru chwarae-gyfeillgar trwy arwain gyda bwriad, cydweithio gyda chynwysoldeb, addysgu gyda brwdfrydedd, a chefnogi gyda sensitifrwydd.

**Nodau**

- **Polisi**: i weithio gydag unigolion, sefydliadau a rhwydweithiau i hysbysu datblygu polisi a materion sy'n ymwneud â chwarae plant yng Nghymru
- **Gwasanaeth Cyfathrebu**: i hyrwyddo gwerth chwarae plant yng Nghymru trwy ddarparu gwybodaeth gyfredol, amserol i'n rhanddeiliaid
- **Cyngor a chefnogaeth**: i ddarparu gwybodaeth arbenigol ar bob mater sy'n ymwneud â, ac sy'n effeithio ar, chwarae plant
- **Datblygu'r gweithlu:** i gyfrannu at ddatblygiad proffesiynol y gweithlu chwarae a gwaith chwarae yng Nghymru.

Am fwy o wybodaeth, ymwelwch â'n gwefannau:
www.chwarae.cymru | www.plentyndodchwareus.cymru

## Ein buddion

**Gwyliau blynyddol**

Mae Chwarae Cymru'n cynnig pecyn gwyliau blynyddol hael i staff llawn amser (pro-rata ar gyfer rhan amser) o 29 diwrnod yn ogystal â diwrnodau gwyliau banc a gwyliau cyhoeddus (Cymru a Lloegr) bob blwyddyn. Yn ogystal, bydd y lwfans gwyliau blynyddol yn cynyddu yn unol â blynyddoedd o wasanaeth.

**Cyflog**

Mae Chwarae Cymru'n cynnig cyflogau cystadleuol gyda chodiadau blynyddol o fewn eich graddfa gyflog wedi un flwyddyn lawn o wasanaeth.

**Pensiwn**

Rydym yn cynnig cyfle ichi ymuno â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gyda chyfraniadau cyflogwr hael.

**Gweithio'n ystwyth**

Rydym yn gweithredu amgylchedd gweithio hybrid ar gyfer rolau cymwys a hyblygrwydd ar draws yr wythnos waith. Eich prif leoliad gweithio fydd eich cartref.

**Gofal iechyd**

Fel un o weithwyr Chwarae Cymru, cewch fynediad i HealthShield, cynllun gofal iechyd sy'n cynnig nifer o fuddion, yn cynnwys mynediad i weithwyr gofal iechyd proffesiynol, cynllun gostyngiadau ar siopa ac ad-daliadau am ffioedd optegwyr a deintyddion.

**Beicio**

Mae Chwarae Cymru'n cynnig cynllun beicio i'r gwaith i holl aelodau'r tîm.

## Swydd-ddisgrifiad

Bydd y Swyddog Polisi'n cefnogi datblygiad a throsglwyddiad gwaith polisi a strategol Chwarae Cymru ar draws cylch gorchwyl cyflawn y sefydliad. Gan weithio fel rhan o dîm cenedlaethol bychan, bydd y rôl yn cynnwys ymgysylltu gyda phartneriaid, cyfrannu at brosiectau a rhaglenni, a chefnogi'r sefydliad i ymateb yn effeithlon i ddatblygiadau mewn polisi ac ymarfer ar draws Cymru.

### Dyletswyddau

- Cyfrannu at drosglwyddo blaenoriaethau polisi a strategol fel yr amlinellir yng nghynllun gweithredol Chwarae Cymru.
- Casglu, dadansoddi a dehongli tystiolaeth, ymchwil a datblygiadau polisi i hysbysu dogfennau briffio, adroddiadau, ymatebion i ymgynghoriadau a chyhoeddiadau eraill.
- Cadw llygad ar y datblygiadau diweddaraf o ran deddfwriaethau, polisïau a rhaglenni sy'n effeithio ar chwarae plant, gwaith chwarae, hawliau plant ac agendâu perthynol yng Nghymru.
- Cefnogi gwaith eiriolaeth Chwarae Cymru trwy helpu i ddatblygu safbwyntiau eglur, seiliedig ar dystiolaeth ar faterion allweddol.
- Cynrychioli Chwarae Cymru mewn cyfarfodydd, digwyddiadau, rhwydweithiau a fforymau, a sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu o fewn y sefydliad.
- Datblygu a chynnal perthnasoedd gweithio effeithiol gyda rhanddeiliaid ar draws lleoliadau cyhoeddus, trydydd sector a chymunedol.
- Cyfrannu at gynllunio a throsglwyddo gweithdai, cyflwyniadau, hyfforddiant a digwyddiadau sy'n cefnogi datblygu polisi, ymarfer a'r gweithlu.
- Darparu cynnwys a chefnogaeth i gyhoeddiadau gwybodaeth a chyfathrebu Chwarae Cymru, gan sicrhau bod deunyddiau'n gywir, hygyrch a chyfredol.
- Cyfrannu at drosglwyddo prosiectau a gwaith gaiff ei gomisiynu, yn cynnwys cefnogi cynhyrchu incwm ble fo'n briodol.
- Cefnogi gweithgareddau monitro, gwerthuso ac adrodd, yn cynnwys cyflwyno tystiolaeth ar effaith gwaith polisi a strategol.
- Cydweithio gyda chydweithwyr ar draws Chwarae Cymru, gan gyfrannu at agwedd tîm hyblyg a chefnogol.
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill sy'n briodol i'r swydd, gan gydnabod natur eang ac esblygol y rôl.

## Manyleb y person

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gallu arddangos eu haddasrwydd ar gyfer y swydd yn erbyn y fanyleb isod:

**Hanfodol**

- Gwybodaeth am a dealltwriaeth o bolisi ac ymarfer sy'n berthnasol i blant, chwarae, gwaith chwarae neu sectorau perthynol yng Nghymru.
- Dealltwriaeth o'r cyd-destun polisi yng Nghymru, yn cynnwys rôl Llywodraeth Cymru, Y Senedd ac awdurdodau lleol.
- Profiad o weithio mewn rôl polisi, datblygu, ymchwil neu rôl debyg yn y sectorau gwirfoddol, cyhoeddus neu sector perthynol arall.
- Profiad o gynhyrchu deunyddiau ysgrifenedig o ansawdd uchel, fel adroddiadau, dogfennau briffio neu ymatebion i ymgynghoriadau.
- Gallu casglu, dadansoddi a chyfleu gwybodaeth gymhleth yn eglur i amrediad o gynulleidfaoedd.
- Profiad o weithio ar y cyd gyda phartneriaid a rhanddeiliaid ar draws sefydliadau neu sectorau.
- Gallu rheoli llwyth gwaith yn effeithiol ac o fewn terfynau amser a gweithio ar eich menter eich hun.
- Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol cryf, yn cynnwys gallu cynrychioli'r sefydliad yn allanol.
- Sgiliau trefniadol a digidol da.
- Ymrwymiad i nodau, gwerthoedd a gwaith Chwarae Cymru.
- Gwybodaeth am feysydd polisi sy'n gysylltiedig â chwarae plant, megis iechyd, addysg, cynllunio, datblygu cymunedol neu gynhwysiant.
- Profiad o hwyluso rhwydweithiau, gweithdai neu ddigwyddiadau ar gyfer cynulleidfaoedd proffesiynol.
- Profiad o drosglwyddo prosiectau, monitro a gwerthuso, neu gyfrannu at geisiadau ariannu.

**Dymunol**

- Sgiliau cyfathrebu Cymraeg da.

**Telerau ac amodau**

Mae'r swydd hon yn un gweithio o gartref yn bennaf, gyda'r angen am rywfaint o weithio yn y swyddfa a theithio trwy Gymru.

**Lleoliad y swyddfa bresennol**: Tŷ Parc, Heol y Brodyr Llwydion, Caerdydd CF10 3AF
**Oriau gweithio**: 22.5 i 37 awr yr wythnos. I'w gytuno gyda'r ymgeisydd llwyddiannus.
**Cyflog**: £24,241 i £38,220 (yn ddibynnol ar yr oriau a gytunwyd) NJC 27-30.
**Contract:** parhaol – cyfnod prawf o chwe mis.